

Uniquely Welsh Unigryw i Gymru

Wales is a small nation, with a big reputation and a great brand.

Cenedl fechan yw Cymru, gyda chlamp o enw da a nodweddion gwych yn perthyn iddi.

Wales is a small nation, with a big reputation and a great brand. Despite being next to England and part of the United Kingdom, Wales has managed to maintain its own identity, language and culture, despite the pressure or the temptation to forsake them and take on the habits of its larger neighbour. Meanwhile, the English have often been fascinated by their neighbours, alternating between contempt and curiosity, indifference and infatuation.

One of the greatest symbols of that independence of mind and spirit is the annual National Eisteddfod of Wales, a quintessentially Welsh cultural event that mixes celebration and competition with ceremony and conversation.

Wrexham, the home of the 2011 National Eisteddfod, has staged the eisteddfod on five previous occasions: 1876, 1888, 1912, 1933 and 1977. Nearby Rhosllanerchrugog, that border bastion of Welshness, has been the base for the eisteddfod an additional two times in 1945 and 1961.

This year it seems timely to explore the history of the National Eisteddfod, this beacon of Welsh culture, and the important role Wrexham has played in its development, as well as the image and identity of Wales in general.

Cenedl fechan yw Cymru, gyda chlamp o enw da a nodweddion gwych yn perthyn iddi. Er gwaethaf ei lleoliad y drws nesaf i Loegr a'i bod yn rhan o'r Deyrnas Unedig, mae Cymru wedi llwyddo i gadw ei hunaniaeth, ei hiaith a'i diwylliant ei hun, er gwaetha'r pwysau neu demtasiwn i'w hildio a mabwysiadu arferion y cymydog mwy. Yn y cyfamser, mae'r Saeson wedi bod yn chwilfrydig iawn ynglŷn â'u cymydogion, gan amrywio rhwng dirmyg a diddordeb, difaterwch a drysu'u pennau'n lân.

Un o symbolau mwyaf yr annibyniaeth meddwl a'r ysbryd hwnnw yw'r Eisteddfod Genedlaethol flynyddol, digwyddiad sy'n rhan o hanfod y diwylliant Cymreig sy'n gymysgedd o ddathlu a chystadlu ynghyd a seremoni a sgwrsio.

Mae Wrecsam, cartref Eisteddfod Genedlaethol 2011, wedi cynnal yr eisteddfod ar bum achlysur blaenorol: 1876, 1888, 1912, 1933 ac 1977. Bu Rhosllanerchrugog, sy'n rhagfur Cymreictod ar y ffin, yn gartref i'r eisteddfod ar ddau achlysur arall sef 1945 ac 1961.

Eleni, mae'n briodol archwilio hanes yr Eisteddfod Genedlaethol, a'r rôl bwysig y mae Wrecsam wedi ei chwarae yn ei datblygiad, yn ogystal â delwedd a hunaniaeth Cymru'n gyffredinol.



Jenny Jones by J.C. Rowland, 1849. The outsiders' image of nineteenth-century Wales? © National Library of Wales PB 3056

Jenny Jones gan J.C. Rowland, 1849. Delwedd rhywun o'r tu allan o Gymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

© Llyfrgell Genedlaethol Cymru PB 3056

The Flower Dance at the National Eisteddfod, Wrexham, 1977

© The National Eisteddfod

Y Ddawns Flodau yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, 1977

© Yr Eisteddfod Genedlaethol

All Dressed Up... Yn Ein Dillad Gorau...

Traditional Welsh costume became one of the symbols of Wales in the nineteenth century, but what would you need to find if you wanted to dress the part!

Daeth y Wisg Gymreig yn un o symbolau Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond beth fyddai ei angen arnoch er mwyn creu'r ddelwedd!

The Cap A linen or cotton mob cap. You'll need a goffering iron for the frills!

Y cap Cap mop lliain neu gotwm. Bydd angen haearn goffro arnoch ar gyfer y ffriliau!

The Welsh hat A black silk plush hat with a wide brim and a tall crown. The crown of the hats came in two styles – straight up (more popular in the north) or tapered (more popular in the south).

Yr het Gymreig Het sidan ddu gydag ymyl lydan a chorun uchel arni. Deuai corun yr het mewn dau fath - yn syth i fyny (yn fwy poblogaidd yn y gogledd) neu un ar ongl (yn fwy poblogaidd yn y de).

The cloak A long cloak with a hood, traditionally blue, though red has been the colour of choice since the 19th century.

Y clogyn Clogyn hir gyda chwfl, yn draddodiadol yn las, er mai coch yw'r lliw a ddewiswyd ers y 19eg ganrif.



© National Library of Wales, PB8416 © Llyfrgell Genedlaethol Cymru, PB8416

The shawl A plain or checked woollen shawl; usually black, grey or cream. If you have the means, you can purchase a brightly coloured cotton or silk shawl. Paisley patterns were very popular.

Y siol Siol wlaen blaen neu un â sgwariau arni; fel arfer yn ddu, llwyd neu hufen. Os yw'r modd gennych, gallwch brynu siol gotwm neu sidan mewn lliwiau bywiog. Roedd patrymau paisley yn boblogaidd iawn.



© National Library of Wales, P5342 © Llyfrgell Genedlaethol Cymru, P5342

The bedgown The two most common types:

- A tailored gown, with a low cut front and a long tail, usually made of red and dark blue or black striped flannel
- A looser form, rather like a Japanese kimono, made of printed cotton or flannel

Y betgwn Y ddau fath mwyaf cyffredin:

- Gwn wedi ei theilwra, gyda blaen isel a chynffon hir, wedi ei gwneud o ddefnydd rhesi coch a glas tywyll neu ddu fel arfer
- Ffurf lacach, rhywbeth yn debyg i gimono'r Siapaneaid, wedi ei gwneud o gotwm neu wlaen batrymog

The apron Your apron should have grey, cream or white stripes or checks on a dark background and be made from hard wearing woollen flannel.

Y ffedog Dylai eich ffedog fod â rhesi neu sgwariau llwyd, hufen neu wyn arni ar gefndir tywyll ac wedi ei gwneud o wlaen fras.

The petticoat A heavy flannel skirt, striped, typical colours – red and dark blue or black and white.

Y bais Sgert wlaen drom, gyda rhesi arni mewn lliwiau nodweddiadol – coch a glas tywyll neu ddu a gwyn.

Spinning An Image

Troelli Delwedd

Most national costumes have their origins in the clothes worn by the people who lived and worked on the land in the 18th and 19th centuries; Wales is no exception.

Mae gwreiddiau'r rhan fwyaf o wisgoedd cenedlaethol yn y dillad a wisgai'r bobl oedd yn byw ac yn gweithio ar y tir yn ystod y 18fed a'r 19eg; nid yw Cymru'n eithriad yn hynny o beth.

In late 18th century Wales, women still made their own clothes from woollen cloth; in contrast to England, where cotton was king. Just as this difference in costume appeared, so did the first tourists. These tourists were seeking the picturesque, the exotic and the other; they found it in a most appealing form in the clothes of Welsh women. Illustrations of Welsh women, wearing men's hats and striped clothes on their way to market became the popular image of Wales.

By the mid 19th century the idea of Welsh costume was firmly established, especially in the minds of visitors and incomers. Princess Victoria wore a tall Welsh hat on her visit to Bangor in 1832. Augusta Hall, later Lady Llanover, encouraged her friends and servants to wear traditional costume, but her influence on the fashion for wearing national costume has been exaggerated. By the 1870s women were wearing the costume for show at royal events and the increasingly popular eisteddfodau.

Welsh costume aroused mixed feelings in Wales. It was a means of declaring your Welsh identity and showing your support for the Welsh woollen industry. It was also the butt of cheap jokes on postcards and an easy cliché for the tourist souvenir industry. For a country keen to promote a modern image to the world, Welsh costume didn't fit well.

Ar ddiwedd y 18fed ganrif yng Nghymru, roedd merched yn dal i wneud eu dillad eu hunain allan o ddefnydd gwlan; o gymharu â Lloegr, ble defnyddid cotwm yn bennaf. Fel y daeth y gwahaniaeth hwn mewn gwisg i'r amlwg, dyna pryd y cyrhaeddodd yr ymwelwyr cyntaf hefyd. Roedd yr ymwelwyr rhain yn chwilio am olygfeydd tlws, pethau amheuthun a gwahanol; a chawsant hynny mewn ffurf ddeniadol iawn yng ngwisg merched Cymru. Daeth darluniau o ferched Cymru, yn gwisgo hetiau dynion a dillad streipiog ar eu ffordd i'r farchnad, yn ddelwedd boblogaidd o Gymru.

Erbyn canol y 19eg, roedd y syniad o wisg Gymreig wedi ei hen sefydlu, yn enwedig ym meddyliau ymwelwyr a mewnfudwyr. Gwisgodd y Dywysoges Fictoria het uchel Gymreig ar ei hymwelriad â Bangor ym 1832. Bu Augusta Hall, a ddaeth yn Lady Llanover yn ddiweddarach, yn annog ei ffrindiau a'i gweision i wisgo'r wisg draddodiadol, ond mae ei dylanwad hi ar y ffasiwn o wisgo gwisg genedlaethol wedi ei orbwysleisio. Erbyn y 1870au, roedd merched yn gwisgo'r wisg i'w dangos mewn digwyddiadau brenhinol ac yn yr eisteddfodau oedd yn dod yn fwyfwy poblogaidd.

Teimladau cymysg oedd yna yng Nghymru ynglŷn â'r wisg. Roedd yn fodd o ddatgan eich hunaniaeth Gymreig a dangos eich cefnogaeth i ddiwydiant gwlan Cymru. Roedd hefyd yn gyff gwawd rhwydd ar gardiau post ac yn ystrydeb hawdd i'r diwydiant cofroddion ymwelwyr. Nid oedd y wisg Gymreig yn cyd-fynd â gwlad oedd yn awyddus i gyfleu delwedd fodern i'r byd.



A nineteenth century illustration of a Welsh woman wearing a *betgwn* (bedgown), *pais* (petticoat), and *het Gymreig* (Welsh hat).

© National Library of Wales, PA5335

Darlun o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg o ddynes Gymreig yn gwisgo betgwn, pais a het.

© Llyfrgell Genedlaethol Cymru, PA5335



Welsh Peasantry Drawn from Living Characters in 1850, John Cambrian Rowland, c.1850-60.

© National Library of Wales, PA7610

Welsh Peasantry Drawn from Living Characters in 1850, (Y Werin Cymreig a Dynnwyd o Gymeriadau Byw ym 1850), John Cambrian Rowland, c.1850-60.

© Llyfrgell Genedlaethol Cymru, PA7610

Field of Dreams Maes y Medrau

An Introduction to the National Eisteddfod

Cyflwyniad i'r Eisteddfod Genedlaethol

The first recorded eisteddfod took place at Cardigan Castle at the court of Lord Rhys of Deheubarth in 1176. He awarded chairs to the best poet and the best musician. It was the inspiration for future eisteddfodau, but the idea of holding a regular national eisteddfod took many centuries to achieve. The defeat of the Welsh princes, the Acts of Union, the Tudor vagrancy laws, changing fashions, the geography of Wales and the lack of wealthy sponsors hindered the staging of any national cultural gathering.

During the early nineteenth century, the desire to promote Wales's unique culture gained new followers. Enthusiasts organised provincial eisteddfodau and the Great Llangollen Eisteddfod in 1858 showed what could be achieved. Three years later, the first national eisteddfod took place in Aberdare. In 1880 the National Eisteddfod Association was established to organise an annual eisteddfod alternating between north and south Wales.

The National Eisteddfod became a stage on which the people of Wales could showcase their talents as it travelled the country tapping the enthusiasm of each year's host community. Opinions always differed over whether the eisteddfod should concentrate on Welsh poetry and prose, or broaden its appeal by including classical music, art and crafts from around the world.

The decision had to be made – would the National Eisteddfod be the champion of the unique genius of the Welsh people or just one of the many musical festivals held in Britain? In 1937, the National Eisteddfod chose to put Wales and the language first. It has since become the premier event in the Welsh cultural calendar.


'eisteddfodau' is the plural for 'eisteddfod' in Welsh. The word 'eisteddfod' means a gathering or a meeting.

Cynhaliwyd yr eisteddfod gyntaf y ceir cofnod ohoni yng Nghastell Aberteifi yn llys Arglwydd Rhys y Deheubarth ym 1176. Dyfarnai gadair i'r bardd ac i'r cerddor gorau. Bu hon yn ysbrydoliaeth i eisteddfodau y dyfodol, ond cymrodd gryn amser i gyflawni'r syniad o gynnal eisteddfod genedlaethol yn rheolaidd. Tarfwyd ar gynnal unrhyw wyl genedlaethol wedi trechu'r tywysogion Cymreig, y Ddeddf Uno, deddfau crwydro'r Tuduriaid, newid mewn arferion, daearyddiaeth Cymru a diffyg noddwyr cefnog.

Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, daeth yr awydd i hyrwyddo diwylliant unigryw Cymru â dilynwyd newydd. Trefnodd y rhai brwd eisteddfodau plwyf, a dangosodd Eisteddfod Fawr Llangollen ym 1858 yr hyn y gellid ei gyflawni. Dair blynedd yn ddiweddarach, cynhaliwyd yr eisteddfod genedlaethol gyntaf yn Aberdâr. Ym 1880 sefydlwyd Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol i drefnu eisteddfod flynyddol bob yn ail rhwng gogledd a de Cymru.

Daeth yr Eisteddfod Genedlaethol yn llwyfan i bobl Cymru arddangos eu doniau wrth iddi deithio drwy'r wlad ac enyn brwdfrydedd y cymunedau gwadd bob blwyddyn. Mae'r farn wedi amrywio erioed ar prun ai ddylai'r eisteddfod ganolbwyntio ar farddoniaeth a rhyddiaith Gymraeg, neu ehangu ei hapel drwy gynnwys cerddoriaeth glasurol, celf a chrefft o bob cwr o'r byd.

Roedd yn rhaid penderfynu – a fyddai'r Eisteddfod Genedlaethol yn hyrwyddo hynodrydd arbennig y Cymry neu a fyddai'n un o nifer o wyliau cerdd a gynhelir ym Mhrydain? Ym 1937, dewisodd yr Eisteddfod Genedlaethol roi Cymru a'r iaith yn gyntaf. Ers hynny, mae wedi dod yn brif ddiwyddiad y calendr diwylliannol Cymreig.



Souvenir Postcard, Royal National Eisteddfod of Wales, Wrexham, 1912
© Wrexham Archives, DWL 197/15

Cerdyn Cofrodd, Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru, Wrecsam, 1912
© Archifdy Wrecsam, DWL 197/15



The proclamation ceremony, the Gorsedd of the Bards of the Isle of Britain, Wrexham, 1911 © RCAHMW

Seremoni'r cyhoeddi, Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, Wrecsam, 1911 © CBHC

Robes & Regalia

Rhwysg a Regalia

Any visitor to the National Eisteddfod will notice that a group of men and women in different coloured robes play a very important part in the proceedings.

Bydd unrhyw un sy'n ymweld â'r Eisteddfod yn sylwi bod dynion a merched mewn gwisgoedd gwahanol liwiau'n chwarae rhan bwysig iawn yn y gweithgareddau.

Any visitor to the National Eisteddfod will notice that a group of men and women in different coloured robes play a very important part in the proceedings. They are the Gorsedd – an association of poets, writers, artists, musicians and individuals who have contributed to Welsh language and culture.

The Gorsedd was established by Iolo Morganwg in 1792. A talented poet, writer, manuscript collector and self-publicist, Morganwg was probably Wales's greatest storyteller. He appeared at the Carmarthen eisteddfod in 1819 and inducted the leading lights of the Welsh literary scene into his new club. Much of his history of the Gorsedd and its links to the ancient Druids of Britain was pure imagination, but he left a legacy: a nation that values its culture.

Bydd unrhyw un sy'n ymweld â'r Eisteddfod yn sylwi bod dynion a merched mewn gwisgoedd gwahanol liwiau'n chwarae rhan bwysig iawn yn y gweithgareddau. Dyma'r Orsedd – cymdeithas o feirdd, awduron, arlunwyr, cerddorion ac unigolion sydd wedi cyfrannu at iaith a diwylliant Cymru.

Sefydlwyd yr Orsedd gan Iolo Morgannwg ym 1792. Roedd yn fardd ac awdur talentog, yn gasglwr llawysgrifau ac yn gyhoeddwr, ac ystyrir mai Iolo Morgannwg oedd storiwr gorau Cymru. Ymddangosodd yn eisteddfod Caerfyrddin ym 1819 a chyflwynodd fawrion y byd llenyddol yng Nghymru i'r orsedd newydd. Roedd llawer o'i hanes ef am yr Orsedd a'i chysylltiadau gyda'r hen Dderwyddon ym Mhrydain yn ddychymyg pur, ond gadawodd etifeddiaeth ar ei ôl: cenedl sy'n gweld gwerth yn ei diwylliant.

The Gorsedd banner Embroidered with the symbols and mottos of the Gorsedd: *Y Gwir yn erbyn y byd* (Truth against the World) *Heddwch* (Peace!) and *Yn Wyneb Haul Llygad Goleuni* (In the face of the Sun and the Eye of Light).

Baner yr Orsedd Wedi ei phwytho â symbolau ac arwyddair yr Orsedd: *Y Gwir yn erbyn y byd*, *Heddwch* ac *Yn Wyneb Haul Llygad Goleuni*.

The harp One of the three instruments awarded to bards in the laws of Hywel Dda, along with the *crwth* and the *piobgorn*.

Y delyn Un o dri offeryn a roddir i feirdd yng nghyfreithiau Hywel Dda, ynghyd a chrwth a phibgorn.

The robes Inspired by the eighteenth-century paintings of the Last Bard. The robes vary in colour depending on rank: Ovates (green robes), Bards (blue) and Druids (white).

Yr urddwisgoedd Wedi eu hysbrydoli gan baentiadau'r ddeunawfed ganrif o'r Bardd Olaf. Mae lliw'r gwisgoedd yn amrywio yn ôl y safle: Ofydd (y wisg werdd), Beirdd (glas) a Derwyddon (gwyn).



The Gorsedd of the Bards and local officials, 1911

© Denbighshire Archives, DD/G/1460

Gorsedd y Beirdd a Swyddogion lleol, 1911 © Archifdy Sir Ddinbych, DD/G/1460

Archdruid The head of the Gorsedd, elected every three years, must have won the chair, the crown or the literature medal.

Yr Archdderwydd Pennaeth yr Orsedd sy'n cael ei ethol bob tair blynedd, ac sydd wedi ennill y gadair neu'r goron neu'r fedal lenyddiaeth.

The Hirlas Horn The horn of plenty is offered by the *Mam y Fro* (a married woman from the host district) to the Archdruid as a sign of welcome to the Gorsedd.

Y Corn Hirlas Cyflwynir y corn hirlas gan Fam y Fro i'r Archdderwydd fel arwydd o groeso'r Orsedd.

Peithynen A wooden device on which you inscribe poems in the bardic alphabet.

Peithynen Dyfais allan o bren y gellir arysgrifio cerddi arno yng ngwyddor y beirdd.

Dark Skies Over Wrexham

Cymylau Duon Uwch Ben Wreccsam

On July 24th 1876 disaster struck the preparations for the National Eisteddfod.

Ar Orffennaf 24ain 1876, daeth trychineb i ran y paratodau ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol.

On July 24th 1876 disaster struck the preparations for the National Eisteddfod. A violent thunderstorm blew down the pavilion that workmen were erecting in a field between Hill Street and St. Mark's Church (roughly the land between the multi-storey car park and HMV by Island Green).



Despite this setback, the pavilion was ready for the crowds that flocked to Wrexham less than a month later. People poured down Regent Street from the railway station, stopped at the refreshment tents – iced lemonade 3d, beef and ham sandwiches 2d each or a four course vegetarian dinner at the Temperance League pavilion for 6d – and then bought their tickets at the booths outside this building. Inside the pavilion up to 7,000 people could sit in various levels of comfort, while the poor stood outside in the Walks, a public footpath well placed for listening to the concerts for free.

The 1876 National Eisteddfod is known as the Eisteddfod of the Black Chair because the winner of the 'strict metre' poetry competition died the same day he submitted his poem. In emotional scenes the chairing of the bard ceremony became a memorial service to the late Thomas Williams of Llangollen. The chair was covered in a funeral pall and Edith Wynne, who had been asked to sing in honour of the deceased poet, broke down in tears and had to leave the stage.

Ar Orffennaf 24ain 1876, daeth trychineb i ran y paratodau ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Mewn storm arw o fellt a tharanau, dymchwelwyd y pafiliwn yr oedd dynion wrthi'n ei godi mewn cae rhwng Stryt yr Allt ac Eglwys Sant Marc (tua'r tir rhwng y maes parcio aml-lawr a HMV ger Island Green).

Er gwaetha'r trafferthion, roedd y pafiliwn yn barod ar gyfer y torfeydd a heidiodd i Wreccsam lai na mis yn ddiweddarach. Lliffodd pobl i lawr Stryt y Rhaglaw o'r orsaf drenau, aros wrth y pebyll lluniaeth - lemonêd rhew 3d, brechdanau eidion a ham 2d yr un neu ginio pedwar cwrs i lysieuwyr ym mhafiliwn Y Gymdeithas Ddirwest am 6d - ac yna prynu eu tocynnau yn y bythau y tu allan i'r adeilad hwn. Y tu mewn i'r pafiliwn, gallai hyd at 7,000 o bobl eistedd mewn gwahanol lefelau o foethusrwydd, a'r tlodion yn eistedd y tu allan ar y Rhodfa, llwybr cyhoeddus oedd yn lle da i wrando ar y cyngherddau am ddim.

Mae Eisteddfod Genedlaethol 1876 yn cael ei hadnabod fel Eisteddfod y Gadair Ddu oherwydd i enillydd yr awdl farw ar y diwrnod yr anfonodd ei ymgais. Mewn amgylchiadau trist, trodd cadeirio'r bardd yn wasanaeth emosiynol i'r diweddar Thomas Williams o Langollen. Gorchuddiwyd y gadair mewn clogyn du a bu'n rhaid i Edith Wynne, a oedd yn canu cân y cadeirio, adael y llwyfan yn ei dagrau.



TALIESIN-O-EIFION
1820 - 1876

Thomas Williams of Llangollen, winner of the 'strict metre' poetry competition. His bardic name was Taliesin o Eifion. © Denbighshire Archives, DD/LL/67

Thomas Williams o Langollen, enillydd yr awdl. Ei enw barddol oedd Taliesin o Eifion. © Archifdy Sir Ddinbych, DD/LL/67



Medallion, The Art Treasures & Industrial Exhibition of North Wales & Border Counties, 1876. This ambitious exhibition was staged in a large pavilion off Hope Street.

© Wrexham Heritage Service 85.5.2

Y Fedal, Trysorau Celf ac Arddangosfa Ddiwydiannol Gogledd Cymru a Siroedd y Ffin, 1876. Llwyfannwyd yr arddangosfa uchelgeisiol hon mewn pafiliwn mawr ger Stryt yr Hôb.

© Gwasanaethau Treftadaeth Wreccsam 85.5.2

The Gorsedd of the Bards, with the Black Chair, outside No.1 Grosvenor Road, Wrexham.

© Denbighshire Archives, DD/G/1455

Gorsedd y Beirdd, gyda'r Gadair Ddu, y tu allan i Rif 1, Ffordd Grosvenor, Wreccsam.

© Archifdy Sir Ddinbych, DD/G/1455

International Horizons Ehangu Gorwelion

The National Eisteddfod - 1933
Eisteddfod Genedlaethol - 1933

Wrexham in 1933 – a town in the doldrums with factories shut, mines abandoned and unemployment high. Amidst the economic gloom, the eisteddfod would shine out as an example of what could be achieved when the community came together.

The highlight of the week was the staging of *Pobun* (Everyman) a medieval morality play. The story centres on 'Everyman', a wealthy individual who has it all. Suddenly, while enjoying a banquet in the company of his mistress, he is summoned by 'Death'. 'Everyman' turns to his companions 'Fellowship', 'Kindred' and 'Mammon' but friends, family and money are powerless to help him in his hour of need. Only the long neglected 'Good Deeds' and 'Faith' come to his aid and save him from hell's torments.

The production was sponsored by Lord Howard de Walden of Chirk Castle. It was his enthusiasm that convinced the Austrian producer, Stefan Hock, to travel from Vienna to organise the seemingly impossible: to stage the Welsh language premiere of a German morality play in a temporary pavilion in a municipal park. All but two of the large cast were local amateurs, while the orchestra, the stage crew and the management committee were all volunteers.

Nearly eleven thousand people squeezed into the pavilion to watch the one and only performance. The critics were impressed, the play received rave reviews and the local community were justly proud of what they had achieved – their success was a morality tale for their own times.

Wrecsam ym 1933 - tref yng nghanol dirwasgiad gyda ffatrioedd wedi cau, pyllau wedi eu gadael a diweithdra'n uchel. Yng nghanol yr anobaith economaidd, disgleiriai'r eisteddfod yn esiampl o'r hyn y gallai'r wlad ei gyflawni wrth i'r gymuned ddod at ei gilydd.

Uchafbwynt yr wythnos oedd llwyfannu *Pobun*, drama foesol ganoloesol. Canolbwynt y stori yw 'Pobun', gŵr cyfoethog sy'n meddu ar bopeth. Yn ddirybudd, wrth fwynhau gwledd yng nghwmni ei feistres, daw 'Angau' i alw amdano. Mae 'Pobun' yn troi at ei gymdeithion 'Brawdoliaeth', 'Carennydd' a 'Mamon' ond nid oes gan ffrindiau, teulu nac arian y nerth i'w helpu yn ei angen. Yr unig bethau sydd wrth law i'w arbed rhag poenau uffern yw'r 'Troeon Da' a'r 'Ffydd' yr oedd wedi eu hesgeuluso gymaint.

Noddwyd y cynhyrchiad gan Yr Arglwydd Howard de Walden o Gastell y Waun. Ei frwdfrydedd ef a berswadiodd y cynhyrchydd o Awstria, Stefan Hock, i deithio o Vienna i drefnu'r hyn a ymddangosai fel tasg amhosibl: llwyfannu dangosiad cyntaf o ddrama foesegol Almaenaidd drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn pafiliwn dros dro, mewn parc trefol. Roedd pawb ond dau o'r cast enfawr yn amaturiaid lleol, a'r gerddorfa, y criw llwyfan a'r pwyllgor rheoli i gyd yn wirfoddolwyr.

Daeth bron i un fil ar ddeg o gynulleidfa i'r pafiliwn i wyllo'r unig berfformiad. Roedd y beirniaid wedi eu plesio, cafodd y ddrama adolygiadau ffaithriol ac roedd y gymuned leol yn falch iawn o'r hyn a gyflawnwyd ganddynt – a'u llwyddiant yn chwedl foesol eu cyfnod eu hunain.



Chinese craftsmen and the 1933 bardic chair. The chair was carved by craftsmen trained in a Shanghai orphanage. © Wrexham Archives DWL 198/5-12

Creffftwyr Tsieineaidd a chadair y bardd ym 1933. Cerfiwyd y gadair gan greffftwyr wedi eu hyfforddi mewn cartref plant amddifad yn Shanghai. © Archifdy Wrecsam DWL 198/5-12



Front cover, official programme. © Wrexham Archives

Clawr blaen, rhaglen swyddogol. © Archifdy Wrecsam



The Gorsedd of the Bards and officials, outside Grove Park County School for Boys. The Gorsedd ceremonies took place at Bodhyfryd on what is now the Waterworld car park. © Denbighshire Archives.

Gorsedd y Beirdd a swyddogion, y tu allan i Ysgol Sirol i Fechgyn Grove Park. Cynhaliwyd seremoniau'r Orsedd ym Modhyfryd sydd bellach yn faes parcio Byd Dŵr. © Archifdy Sir Ddinbych.